# EIDCymru: y system amlrywogaeth a datblygiadau gwasanaeth

**Mae EIDCymru yn cael ei ddatblygu i fod yn system a gwasanaeth olrhain amlrywogaeth ar gyfer Cymru.**


Mae Llywodraeth Cymru yn dwyn ynghyd systemau ar wahân ar gyfer gwartheg, defaid a moch, a fydd yn creu cyfle i ddiffinio hunaniaeth ac enw da Cymru fel arweinydd byd-eang ym maes lles a safonau anifeiliaid. Ledled y DU, mae’r holl weinyddiaethau wrthi’n datblygu eu systemau amlrywogaeth eu hunain, ac mae Llywodraeth Cymru yn ehangu EIDCymru i greu’r system olrhain amlrywogaeth gyntaf yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cofnodi symudiadau defaid, geifr a cheirw yng Nghymru drwy EIDCymru. Mae Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) yn darparu system ar gyfer cofrestru ac adrodd ar symudiadau gwartheg, ac mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn darparu system a gwasanaeth eAML2 ar gyfer cofnodi symudiadau moch.

Mae datblygu EIDCymru i fod yn system olrhain amlrywogaeth yn gymhleth, ac mae'n cynnwys dibynnu ar lawer o randdeiliaid allanol sydd wedi achosi oedi. Mae'r diweddariad canlynol yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran y rhywogaethau gwahanol a fydd i gyd, yn y pen draw, yn rhan o EIDCymru.

**System ar gyfer Defaid, Geifr a Cheirw (Cam 1)**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaeth adrodd ar symudiadau defaid, geifr a cheirw yng Nghymru drwy EIDCymru. Cafodd cam 1 i ddiweddaru'r system bresennol ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2021 ar gyfer defaid, geifr a cheirw er mwyn rhoi profiad gwell i geidwaid. Ydych chi wedi cael cip arni?



I gofrestru neu i fewngofnodi ewch i **www.eidcymru.org** neu os oes angen cymorth ffoniwch **01970 636959** (Dydd Llun – Dydd Gwener 9am-5pm).

## System Cofrestru ac Adrodd ar Symudiadau Gwartheg (Cam 2)

Mae cam 2, sef datblygu system a gwasanaeth EIDCymru i gynnwys holl gofrestru ac adrodd ar symudiadau gwartheg, bellach yn mynd rhagddo. Bydd hyn yn cynnwys trosglwyddo i EID Cymru yr holl waith cofrestru gwartheg ac adrodd ar symudiadau gwartheg ar gyfer ceidwaid a safleoedd sy’n trin gwartheg yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) drwy'r System Olrhain Gwartheg (CTS).

Mae’n debygol y bydd EIDCymru yn cyflwyno’r gwasanaethau ar gyfer gwartheg yn 2024, ond byddwn yn gweithio gyda ffermwyr a'r diwydiant ehangach yn ystod y misoedd nesaf, er mwyn cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu'r system a'r gwasanaeth newydd.

## Symudiadau Moch (Cam 3)

Byddwn yn dechrau ar gam 3, i ddatblygu EIDCymru i gynnwys adrodd ar yr holl symudiadau moch yng Nghymru, ac i symud i ffwrdd o'r gwasanaeth eAML2 presennol, sy'n cael ei gynnal gan AHDB, cyn gynted ag y mae Cam 2 wedi cael ei gwblhau.

Nid ydym yn gallu rhoi amserlenni penodol ar gyfer newid i’r system newydd ar hyn o bryd, ond byddwn yn cyhoeddi diweddariadau yn **Gwlad**, a byddwn hefyd yn rhannu manylion â grwpiau diwydiant pan fyddant ar gael.